***Statws*** *This is the original version (as it was originally enacted).*

# ATODLEN 2

# NEWIDIADAU RHEOLEIDDIEDIG

## RHAN 5

## YSGOLION MEITHRIN A GYNHELIR

22 Mae paragraffau 23 i 25 yn disgrifio newidiadau rheoleiddiedig mewn perthynas ag ysgolion meithrin a gynhelir.

### *Y man addysgu*

23 (1) Ehangu'r man addysgu, ac eithrio ehangu dros dro, gan 50% neu fwy.

(2) Gwneud ehangu dros dro y man addysgu gan 50% neu fwy yn ehangu parhaol.

(3) Yn y paragraff hwn—

ystyr "man addysgu" ("*teaching space*") yw unrhyw fan a ddefnyddir yn gyfan gwbl neu'n bennaf ar gyfer darparu addysg feithrin ac eithrio'r canlynol—

(a) unrhyw fan a ddefnyddir yn gyfan gwbl neu'n bennaf ar gyfer addysg disgyblion y mae eu hanghenion addysgol yn cael eu hasesu o dan adran 323 o Ddeddf Addysg 1996 a disgyblion sydd â datganiadau anghenion addysgol arbennig a gedwir o dan adran 324 o'r Ddeddf honno;

(b) unrhyw fan a gafodd ei adeiladu, ei addasu neu ei drefnu yn y fath fodd nad yw'n addas at ddibenion addysgu cyffredinol;

(c) unrhyw fan a gafodd ei adeiladu, ei addasu neu ei drefnu yn bennaf ar gyfer storio cyfarpar, offer neu ddeunyddiau a ddefnyddir wrth addysgu;

(d) unrhyw ran o ardal y mae ei hangen ar gyfer symudiad disgyblion drwy'r ardal honno ac a ddefnyddir yn gyfan gwbl neu'n bennaf at y diben hwnnw;

"ehangu dros dro" ("*temporary enlargement*") yw ehangu man addysgu y rhagwelir y bydd yr ehangiad, ar yr adeg y'i gwneir, yn ei le am lai na thair blynedd.

### *Anghenion addysgol arbennig*

24 (1) Sefydlu darpariaeth neu ddirwyn darpariaeth i ben a gydnabyddir gan yr awdurdod lleol yn ddarpariaeth a gadwyd yn ôl ar gyfer plant ag anghenion addysgol arbennig.

(2) Os oes darpariaeth a gydnabyddir gan yr awdurdod lleol yn ddarpariaeth a gadwyd yn ôl ar gyfer plant ag anghenion addysgol arbennig, newid yn y math o'r cyfryw ddarpariaeth.

### *Cyfrwng iaith*

25 (1) Yn achos ysgol y caiff grwp o ddisgyblion ynddi ei addysgu yn gyfan gwbl neu'n bennaf drwy gyfrwng y Gymraeg, unrhyw newid i'r ysgol fel y byddai pob disgybl yn cael ei addysgu yn gyfan gwbl neu'n bennaf drwy gyfrwng y Saesneg.

(2) Yn achos ysgol y caiff grwp o ddisgyblion ynddi ei addysgu yn gyfan gwbl neu’n bennaf drwy gyfrwng y Saesneg, unrhyw newid i’r ysgol fel y byddai pob disgybl yn cael ei addysgu yn gyfan gwbl neu’n bennaf drwy gyfrwng y Gymraeg.